**Beth yw cornchwiglen?**

Aderyn y gwlyptir a thir amaethyddol yw'r gornchwiglen, aderyn sy'n prinhau'n gyflym yng Nghymru – 20,000 pâr yn gynnar yn y 1970 i lai na 1,700 o barau heddiw.Gostyngodd y nifer a oedd yn nythu o 70% yn y deng mlynedd hyd at 1998.

Er mai gwyrdd a gwyn yw ei phrif liwiau mae'r gornchwiglen yn ymddangos yn ddu a gwyn o bellter a thua'r un faint â cholomen.



Y Gornchwiglen gan Bob Glover RSPB

**Pa gynefin sydd angen arnynt?**

Mae gwlyptir gwlyb yn gynefin delfrydol er bod modd dod o hyd i'r aderyn ar yr ucheldir a'r tir isel yn ôl yr adeg o'r flwyddyn. Yn ystod misoedd y gaeaf, gwelir llawer o'r adar ar aberoedd ac ar ffermdir sydd â sofl yn dilyn cynaeafu cnydau a heuir yn y gwanwyn.

Mae'r oedolion yn bwydo ar bryfed genwair, malwod bychain, chwilod, pryfed clust, pryfed cop, ceirw'r gwellt a larfâu pryfed. Mae'r cywion yn bwydo ar chwilod bychain, pryfed a larfâu pryfed.

Mae'r gornchwiglen yn hedfan mewn ffordd nodweddiadol o fyrlymus sydd fwyaf amlwg yn y gwanwyn.

I nythu, mae'r oedolion yn ffurfio pant bychan ar dir moel fydd yn warchodliw i'r wyau tywyll. Mae'r tymor nythu yn ymestyn o ddiwedd mis Mawrth hyd at ddechrau mis Mehefin. Mae'n bwysig nad yw'r llystyfiant o amgylch y nyth yn tyfu'n rhy uchel oherwydd mae'r adar angen gweld o'u cwmpas i bob cyfeiriad tra'n cadw llygad am ysglyfaethwyr megis gwylanod a brain.

Mae ar y gornchwiglen angen dau amod cynefin gwahanol i fagu'n llwyddiannus sef i ddodwy ei hwyau ac i fagu ei chywion. Hefyd mae arnynt angen pridd llaith er mwyn sicrhau cyflenwad o ysglyfaeth infertebrat (heb asgwrn cefn) fel bwyd i'r oedolion a'r cywion.

## Gweithgaredd awyr agored / ystafell ddosbarth

(20 munud o baratoad.) 30–40 munud. Gweithgaredd dosbarth cyfan.

**Chi ydy Swyddog y Gornchwiglen.**
(Gweithgaredd cwestiwn ac ateb.)

**Offer**

- Dalen Waith
- Cerdyn/papur
- Llawr digon mawr ( o dan do neu yn yr awyr agored)

**Paratoad**

- Gan ddefnyddio dalen waith, trosglwyddwch y tri ateb i bob cwestiwn i ddarnau o gerdyn – mae A4 yn ddelfrydol. Peidiwch â rhoi syniad pa rai yw'r atebion cywir!

**Gweithgaredd**

- Er mwyn ymuno â 'Swyddogion y Gornchwiglen', rhaid i ddisgyblion ateb cyfres o gwestiynau yn gywir i ennill eu lle fel un o'r Swyddogion. Dylid gosod y darnau o gerdyn ar y ddaear neu ar goeden. Mae disgyblion yn sefyll wrth yr atebion sy'n gywir yn eu barn hwy.
  Golyga atebion anghywir fod y disgybl yn cael ei ddileu o'r gweithgaredd, a bod unrhyw un sydd ar ôl wedi 12 cwestiwn yn dod yn aelod o dîm Swyddogion y Gornchwiglen!

**Awgrymiadau i Athrawon**

- Efallai yr hoffech gynllunio tystysgrif neu fathodyn i'r disgyblion hynny sy'n ateb pob cwestiwn yn gywir.
- Mae pob cwestiwn yn berthnasol i'r gornchwiglen a'i chynefin.
- Byddai modd addasu'r gweithgaredd fel cwis dosbarth heb gael y disgyblion i symud o gwmpas, ond byddent felly'n colli'r syniad o brysurdeb a bwrlwm byd y cornchwiglod.

**Cwestiynau sylfaenol**

Am syniadau ar gynhyrchu cwestiynau ychwanegol ymwelwch â safwe RSPB Cymru ar
**www.rspb.org.uk/cymru**
Am fwy o wybodaeth am raglen addysg y gornchwiglen, ffoniwch Ganolfan Addysg yr RSPB – 01495 303971

## Holiadur Darpar Swyddogion y Gornchwiglen

### Yr aderyn

**1 Mae'r gornchwiglen yn:**

a aderyn sy'n heidio.
b fath o frân
c fath o fronfraith.

**2 Gallwn adnabod y gornchwiglen yn hawdd oherwydd:**

a mae ei dull o hedfan yn nodweddiadol, ac mae'n wyrdd a gwyn yn bennaf.
b mae ganddi wddf hir iawn a choesau a phig felen lachar.
c nid oes ganddi blu ac mae ganddi goesau a phig las lachar.

**3 Mae gan y gornchwiglen big fer a chryf i'w helpu i:**
a wneud ei nyth mewn coed.
b chwilio am fwyd mewn glaswelltir gwlyb.
c chwibanu.

**4 Ar hyn o bryd, mae:**
a llai na 1,700 o barau o gornchwiglod yng Nghymru.
b mwy na 10,000 o barau o gornchwiglod yng Nghymru.
c gormod o gornchwiglod yng Nghymru.

## Ei Nyth

**5 Mae'r gornchwiglen yn nythu rhwng:**
a diwedd mis Hydref a dechrau mis Ionawr.
b diwedd mis Mawrth a dechrau mis Mehefin.
c dydd Mawrth a dydd Iau.

**6 Mae nyth y gornchwiglen:**
a wedi ei wneud o briciau wedi eu gosod mewn glaswelltir hir.
b i'w weld o'r gofod.
c mewn pant bychan ar dir moel.

**7 Byddai safle nythu delfrydol i'r gornchwiglen yn cynnwys:**
a teledu lloeren a jacwsi.
b llawer o bryfed a dim ymyrraeth.
c llawer o bobl yn mynd heibio a chwistrelliad rheolaidd o bryfladdwr.

## Cynefinoedd

**8 Un o brif ffynonellau bwyd y gornchwiglen yw:**
a chwilod a larfâu pryfed eraill.
b siocled.
c pysgod o'r môr.

**9 Yng Nghymru, gwelir y gornchwiglen yn bennaf:**
a mewn meysydd parcio yng nghanol dinasoedd.
b ar ucheldir a thir isel.
c mewn ardaloedd coediog.

**10 Ym misoedd y gaeaf fe welir cornchwiglod:**
a ar aberoedd ac ar dir amaethyddol.
b yn uchel yn y coed.
c yn gwerthu watshis ym marchnad y dref.

**11 Byddai:**
a tir sych a charegog gyda llawer o goed
b llecynnau o laswelltir gwlyb lle ceir glaswellt byr
c llecynnau o laswelltir gwlyb lle ceir glaswellt hir yn gynefin da i gornchwiglen.

**12 Ffordd bwysig o helpu'r gornchwiglen yn ei chynefin yw drwy:**
a chwistrellu pryfladdwyr a chwynladdwyr bob wythnos.
b gwisgo Welingtons anferth.
c sicrhau nad oes neb yn ymyrryd â'r safle.

Dyma restr o'r atebion cywir: 1a 2a 3b 4a 5b 6c 7b 8a 9b 10a 11b 12c